# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 8fed Gorffennaf 2024
Festri Capel Dinas

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Alun Williams, Gareth Jones, Deio Williams, John Daveis, Sian Parri, Henry Hughes, Chris Brady,

Ymddiheuriadau:

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Cafodd y Clerc sgwrs hefo Lewis Jones, saer coed lleol fydd yn gwneud hysbysfwrdd i bentref Garnfadryn – bydd Lewis yn rhoi pris yn fuan.
   b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cyflwynodd y Clerc gais am adroddiad i'r Bwrdd Dwr gan dalu £89.66 o'i harian ei hun- bydd y Cyngor Cymuned yn ad-dalu'r Ceric y swm o £89.66. Cyflwynodd y Clerc gais am adroddiad i Cyfoeth Naturniol Cymru. Penderfynnwyd mai y ffordd ymlaen dros yr haf fydd i'r Clerc weithio ar roi cais cynllunio llawn gan anelu i'w gyflwyno i Cyngor Gwynedd erbyn mis Medi. Bydd y Clerc hefyd yn holi os oes grant ar gael ar gyfer y math yma o ddatblygiad.
   c. **Traffic a'r lon yr ysgol –** Derbynwyd adroddiad yr archwyliad, doedd dim pryder yn codi o'r canlyniadau, cyflwynwyd y ffigyrau i'r heddlu a doedd dim pryder yn cael ei amlygu ganddynt hwythau chwaith. Bydd yn rhaid derbyn hyn fel ateb terfynol.
   ch. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** ni chafwyd ymateb.

d. **Tyllau lon ger Bragdy Dinas –** mae’r tyllau nawr wedi eu cau.

dd. **Audti Mwenol –** Anfonodd y Clerc ganlyniad yr adroddiad i bawb ar ebost, cafwyd cyfle i drafod yr adroddiad , dywedodd y Clerc y bydd angen iddi diweddaru’r wefan yn amlach, gan ddangos cofrestr buddiannau, hysbysuadau cyhoeddus, chyfrifon archwiliedig, adroddiad blynyddol ar y wefan. Bydd angen hefyd adolygu’r polisiau yn flynyddol.

4. Gohebiaeth:

**a.** **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i’w dalu..

**b.** **Cais cynllunio C24/0446/46/YA** Hendref,Llaniestyn - Cefnogi

**c.** **Cais cynllunio CAS-03459-GOJ5Q3** Hendregoed Cottage,Llaniestyn- Cefnogi rhesymau a safbwyntiau Cyngor Gwynedd dros wrthwynebu.

**Ch.** **Cais cynllunio C24/0492/46/CR** 1 Llain Fatw, Porth Colmon – Cefnogi gan bwysleisio pwysigrwydd cadw cymeriad blaen yr eiddo, a sicrhau nad yw’n troi yn dy gwyliau.

**d.** **Cais cynllunio C24/0494/46/DT** Delfryn, Tudweiliog – sylw: gofalu fod yr ‘Air Source Heat Pump’ yn cael ei osod yng nghefn yr eiddo.

5. Unrhyw Fater Arall:-

a. Dywedodd y Clerc ei bod erbyn hyn wedi cyflwyno y gwaith papur i’r Audit allanol – Audit Wales.

b. Cafwyd cwyn fod y llwybyr at bont Felin wedi cau a chulhau yn arw, bydd y Clerc yn mynd I gysylltiad ac Ardal Ni neu yr adran llwybrau Cyngor Gwynedd.

c. Cyflwynwyd sylw fod chwyn a tyfiant o flaen yr Ysgol – bydd y Clerc yn anfon at y Pennaeth i ddatgan y sylw

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Medi 9ed 2024 am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn.